# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tŷ Cwm Gwendraeth**

**Tŷ Cwm Gwendraeth**
**Heol Llan-non**
**Y Tymbl Uchaf**
**Llanelli**
**SA14 6BU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/02/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Tŷ Cwm Gwendraeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | TY CWM GWENDRAETH LIMITED |
| Lleoedd cofrestredig | 49 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | [Nodi â Llaw] |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae Tŷ Cwm Gwendraeth yn gartref hapus. Dim ond dwy flynedd yn ôl yr agorwyd y gwasanaeth, mae wedi'i rannu'n bum ardal ar wahân ac mae gan bob ardal gymeriad unigryw. Gall y bobl ddewis ble i dreulio eu hamser, boed hynny yn eu hystafelloedd eu hunain neu gydag eraill mewn ardaloedd cymunedol, gan gynnwys y gerddi mawr a chaffi/clwb cymdeithasol.

Mae'r nyrsys a'r gweithwyr gofal yn frwdfrydig ynghylch eu gwaith. Maent yn trin y bobl ag urddas a pharch ac yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan yr uwch-aelodau o staff. Mae pob gweithiwr yn cwblhau hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl ac yn dweud fod hynny'n ei helpu i gefnogi'r bobl yn briodol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac mae'n sicrhau ei fod ar gael i'r bobl, eu perthnasau a'r staff yn rheolaidd. Gwneir atgyfeiriadau prydlon at weithwyr gofal iechyd proffesiynol pan fo angen. Mae'r prosesau sicrhau ansawdd sydd ar waith gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r tîm rheoli yn dangos y pwys a roddir ar fonitro a gwella'r gwasanaeth i'r bobl.

## Llesiant

Mae'r cofnodion gofal yn cynnwys swm sylweddol o wybodaeth am ddewisiadau'r unigolyn, teulu a ffrindiau sy'n bwysig i'r person, yn ogystal â chiplun syml o'i fywyd. Dywed y bobl eu bod yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y broses o adolygu eu cynlluniau gofal. Dywedodd un perthynas wrthym, *“We’re always asked, but I trust them so much to do the right thing for x.”*

Mae'r nyrsys a'r gweithwyr gofal yn gwrando ar farn y bobl am eu gofal a'u cymorth ac maent yn ymwybodol o bwysigrwydd llesiant pob person. Mae'r gweithwyr allweddol ac aelodau eraill o'r staff yn siarad â'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn rheolaidd er mwyn adolygu unrhyw newidiadau i'w hanghenion gofal a chymorth. Caiff y bobl eu hannog gan y gweithwyr gofal i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am sut i dreulio eu hamser: mae tîm gweithgareddau brwdfrydig yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau bob wythnos. Ceir bwydlen amrywiol gan ddau gogydd medrus a'u tîm, a dywed y bobl eu bod yn hoff iawn o'r bwyd sydd ar gael bob diwrnod. Maent hefyd yn dweud bod digon o opsiynau eraill ar gael pan fyddant yn newid eu meddwl. Dywedodd un person,*“The food is really good. So lovely”* a dywedodd perthynas wrthym, *“The meals are incredible, amazing.”*

Caiff gwybodaeth am ddigwyddiadau sydd ar ddod yn y gwasanaeth ei harddangos ar draws y safle. Cynhelir cyfarfodydd tŷ, yn ogystal â chyfarfodydd unigol gyda gweithwyr allweddol i'r rhai nad ydynt am ymuno â chyfarfod grŵp.

Mae'r bobl yn cael copi o ganllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth pan fyddant yn cyrraedd: dogfen sy'n darparu manylion am y gwasanaeth yw hon, gan gynnwys gwybodaeth am y broses gwyno os bydd angen iddynt ei defnyddio. Dywed y bobl eu bod yn hyderus i godi unrhyw beth y maent am ei drafod â'r rheolwr a'u bod yn teimlo'n hyderus y byddai'n gwrando arnynt pe baent yn gwneud hynny.

Mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg: mae hyn yn golygu bwrw ati i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg i bobl heb fod angen iddynt ofyn am hynny – mae rhai aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg ac mae arwyddion dwyieithog o gwmpas y safle. Nodir hefyd gennym fod Datganiad o Ddiben y gwasanaeth a'r Canllaw i Ddefnyddwyr y Gwasanaeth ar gael yn ddwyieithog.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael cymorth fel y'i disgrifir yn eu cynlluniau gofal gan dîm sefydledig o nyrsys a gweithwyr gofal. Dywedodd un perthynas, "*We can't thank them enough. They are all wonderful and we are so happy x is there."* Dywedodd perthynas arall wrthym, *"They always make time for us when we phone them. And they always let us know what's going on. We need that and it's really important."*

Mae cyfathrebu da ymysg y tîm, ac mae'r uwch-aelodau o staff yn gwneud atgyfeiriadau prydlon at weithwyr gofal iechyd proffesiynol pan fo angen. Yn ogystal, mae gan y darparwr ei Therapydd Lleferydd ac Iaith, ei Therapydd Galwedigaethol a'i Ffisiotherapydd ei hun, yn ogystal â Chynorthwywyr ac eraill yn y tîm.

Mae'r tîm rheoli yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth er mwyn sicrhau y gellir diwallu anghenion y bobl cyn eu derbyn i'r cartref. Mae hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol allanol megis gweithwyr cymdeithasol, lleoliadau blaenorol a dogfennau rhyddhau o'r ysbyty. O hyn, bydd uwch-aelodau o'r staff yn datblygu cofnodion gofal i ddisgrifio trefniadau a gofynion cymorth y bobl, gan gynnwys asesiadau risg clir er mwyn cynnal annibyniaeth y bobl gymaint â phosibl. Caiff cofnodion gofal eu cadw ar ffurf electronig. Maent yn fanwl iawn ac mae'n hawdd dod o hyd i'r wybodaeth sydd ynddynt.

Cyhyd ag y bo'n bosibl, mae'r bobl yn ddiogel a chânt eu hamddiffyn rhag camdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal wedi bodloni proses recriwtio drylwyr y darparwr. Gall pob gweithiwr gofal gael gafael ar bolisïau a gweithdrefnau er mwyn deall ei gyfrifoldeb i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed. Caiff hyfforddiant diogelu'r gweithwyr gofal ei ddiweddaru'n rheolaidd. Gwnaethant ddweud wrthym fod yr uwch-aelodau o staff yn eu cefnogi'n dda a'u bod ar gael bob amser i roi cyngor os bydd angen.

Mae gan y cartref bolisïau a gweithdrefnau manwl i reoli'r risg o heintiau. Mae arferion hylendid da ar waith ym mhob rhan o'r cartref a gall y gweithwyr gofal gyfeirio at bolisïau rheoli heintiau lle bo angen. Caiff pob mesur ei ddefnyddio'n gyson er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael eu diogelu rhag heintiau.

## Yr Amgylchedd

Mae Tŷ Cwm Gwendraeth yn wasanaeth mawr. Mae pum uned ar wahân, mae gan bob un ei chymeriad ei hun ac mae'n darparu ar gyfer pobl ag anghenion penodol. Llety llawr gwaelod sydd yn y rhan fwyaf o'r unedau, ac mae gan un uned fflatiau ar wahân ar ddau lawr. Mae pwll hydrotherapi mawr hefyd, yn ogystal â champfa ac ardal â bar/clwb cymdeithasol/caffi lle bydd y bobl yn ymgynnull i sgwrsio neu i gael nosweithiau ffilm ar sgrin fawr â thaflunydd. Dywedodd un perthynas wrthym ei fod wedi defnyddio'r ardal hon ar gyfer parti pen-blwydd yn ddiweddar a'i fod wedi gallu gwahodd holl deulu a ffrindiau'r unigolyn ac ychwanegodd, *"It was really wonderful, and so grateful to be able to do it."*

Mae pob ardal yn gynnes ac yn lân, a dywed y bobl eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn hapus. Mae'r ystafelloedd gwely yn fawr iawn ac wedi'u personoli i adlewyrchu chwaeth a diddordebau'r person, gydag eitemau fel ornamentau, llenni a deunyddiau, lluniau a dodrefn. Mae'r cyfleusterau a'r cyfarpar yn hybu annibyniaeth pob person gymaint â phosibl. Mae'r coridorau yn llydan er mwyn helpu pobl nad ydynt yn gallu symud yn dda a sicrhau bod digon o le ar gyfer y cyfarpar a ddefnyddir yn rheolaidd gan y bobl, megis teclynnau codi a chymhorthion sefyll. Mae traciau wedi'u gosod ar y nenfwd er mwyn i'r bobl sy'n defnyddio cyfarpar symudedd allu symud o gwmpas eu hystafelloedd. Y tu allan, mae gardd hygyrch fawr ag ardaloedd lawnt yn bennaf ac a gaiff ei datblygu ymhellach yn ystod yr haf.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel. Nid oes unrhyw rwystrau wrth yr allanfeydd tân. Caiff yr holl ddeunyddiau COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd) eu storio'n gywir, yn unol â Rheoliadau COSHH 2002 ac mae cyfarwyddiadau clir wedi'u harddangos yn y cartref sy'n nodi beth y dylid ei wneud os bydd tân.

Caiff y bobl eu diogelu rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad gan fod yn rhaid i bob ymwelydd ganu cloch y drws ffrynt er mwyn dod i mewn. Caiff cofnodion gofal a chofnodion cyfrinachol y bobl eu storio'n ddiogel mewn swyddfa dan glo a dim ond y gweithwyr gofal sydd ag awdurdod i'w gweld all gael gafael arnynt. Caiff cofnodion personél yr holl weithwyr eu cadw'n ddiogel ym mhrif swyddfa'r darparwr yn Abertawe.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ar y cyfan, mae gan y tîm rheoli weledigaeth glir o'r cymorth y mae am ei ddarparu, ac agwedd gadarnhaol tuag at bob person yn y cartref. Mae dau reolwr ac, er bod y cartref yn eithaf newydd, maent wedi datblygu diwylliant cadarnhaol ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cyfarfod yn rheolaidd â'r nyrsys a'r gweithwyr gofal ac yn goruchwylio'r gwaith o fonitro'r cymorth a roddir i'r bobl bob dydd. Mae'r tîm rheoli yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â theuluoedd y bobl a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â'u gofal. Mae'r bobl yn gwybod sut i wneud cwyn pe bai angen iddynt wneud hynny ac maent yn hyderus y byddai'r tîm rheoli yn gwrando arnynt pe baent yn gwneud cwyn. Dywedodd un perthynas, *“We know what is happening all the time. We get phone calls whenever anything changes.”* Gall y bobl a'u perthnasau gwblhau arolygon sy'n gofyn am eu barn ar ansawdd y cymorth a roddir iddynt, er y nodir bod llai o bobl yn ymateb nag a obeithiwyd; mae cynlluniau i addasu'r ffordd y bydd y bobl yn cael yr arolygon hyn yn y dyfodol. Gall y gweithwyr drafod unrhyw faterion y maent am eu codi yn ystod cyfarfodydd goruchwylio cyfrinachol a gynhelir bob chwe wythnos. Bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn cofnodi ansawdd y gwasanaeth a gynigir i'r bobl mewn adroddiadau ansawdd bob chwe mis.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod gweithwyr gofal gwybodus a medrus ar gael i ddarparu'r cymorth cywir i'r bobl. Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio: mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r rhaglen sefydlu staff yn gysylltiedig â chanlyniadau dysgu unigol. Mae'r gweithwyr gofal yn ymgymryd â hyfforddiant sy'n berthnasol i'r bobl y maent yn eu cefnogi ac, ar y cyfan, mae'r lefelau cadw staff yn dda felly maent yn adnabod y bobl yn y cartref yn dda.

Cyhyd ag y bo'n bosibl, mae'r darparwr yn cymryd camau priodol i ddiogelu'r bobl rhag esgeulustod a chamdriniaeth.  Mae'r tîm o staff yn sicrhau eu bod yn diogelu unrhyw wybodaeth breifat a phersonol. Mae polisi a gweithdrefn diogelu'r cartref yn unol â deddfwriaeth gyfredol a gweithdrefnau diogelu lleol. Mae uwch-aelodau o'r staff yn sicrhau bod yr holl gofnodion gofal yn nodi unrhyw risgiau i lesiant y bobl yn glir, ac mae'r cynlluniau rheoli risg manwl yn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel ac mor annibynnol â phosibl. Mae'r gweithwyr gofal yn cydnabod eu cyfrifoldebau personol o ran cadw'r bobl yn ddiogel. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban ac yn hyderus i'w defnyddio pe bai angen. Byddent yn siarad â'r rheolwr neu'r Unigolyn Cyfrifol, ond byddent yn cysylltu ag asiantaethau allanol, fel y swyddfa ddiogelu leol, pe byddent o'r farn bod angen gwneud hynny.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 27/02/2023